Amcangyfrif costau ar gyfer ymyriadau teithio egnïol

Mae'r tabl canlynol yn rhoi amcangyfrif costau ar gyfer ymyriadau teithio egnïol (cerdded a beicio). Mae'r data a roddir i'w ddefnyddio fel canllaw yn unig, i alluogi defnyddwyr i ddarparu ffigurau amcanol ar gyfer ariannu ceisiadau neu gyfwerth. Gall costau gwirioneddol amrywio yn dibynnu ar yr hinsawdd economaidd, lleoliad a'r gallu i brynu.

Os ydych yn ansicr pa amcangyfrif sydd yn fwyaf perthnasol i'ch safle chi, mae'r Pecyn Cymorth Teithio Byw yn y Gweithle Sustrans yn rhoi adolygiad manwl o'r ymyriadau: www.activetravelcymru/toolkit . Hefyd, gall y dogfennau a'r manylion cyswllt a nodir yn y golofn 'cysylltiadau a gwneud penderfyniadau' yn y tabl isod roi cefnogaeth bellach a chynorthwyo gydag ymholiadau safle-benodol.

Mewn rhai achosion, efallai y bydd cost Adnodd Dynol ynghlwm wrth reoli'r 'gweithredu'. Nid yw'r gost hon wedi'i chynnwys yn y golofn amcangyfrif cost a dylid ei hychwanegu fel sy'n briodol. Hefyd, efallai y bydd rhai ymyriadau, megis y Cynllun Beicio i'r Gwaith, angen adnoddau ychwanegol o fewn y tîm cyllid ar y dechrau, ond nid oes angen unrhyw gyfalaf heblaw am ddeunyddiau marchnata. Fel uchod, ni chynhwysir hyn yn y tabl amcangyfrifon.

Mewn nifer o achosion efallai y bydd angen deunydd marchnata i hysbysebu cynlluniau, digwyddiadau a chyfleoedd. Bydd y deunydd hwn yn golygu cost ond gall hyn amrywio'n eang rhwng gwahanol safleoedd. Awgrymir bod angen cyfandaliad 'marchnata cyffredinol'.

Cydnabyddir efallai y bydd rhai amcangyfrifon costau angen rhagor o gynllunio manwl h.y. tawelu traffig a darparu lonydd beicio. Er mwyn darparu rhagamcaniadau cost realistig dylid ceisio cyngor technegol pellach.

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Her Iechyd Cymru Health Challenge Wales

YMUNWCH Â'R MUDIAD sustrans JOIN THE MOVEMENT

Gweithredu	Cysylltiadau, adnoddau a gwneud penderfyniadau	Amcangyfrif costau
Hyfforddiant cynnal a chadw beiciau	Mae'r amrediad prisiau yn amrywio yn dibynnu ar gymhareb hyfforddwyr: oedolion a nifer y sesiynau a ddarperir. **Gwneud penderfyniadau: Cynulleidfa darged** Bydd penderfynu beth yw eich amcanion ar gyfer y sesiwn cynnal a chadw cyn ei harchebu yn sicrhau eich bod yn cael y pecyn iawn. Beth yw eich prif ffocws: - staff i ddod â'u beiciau eu hunain i gael eu gwirio ar gyfer addasrwydd i'r ffordd, neu i ddysgu atgyweirio eu beiciau eu hunain? - cefnogi 'hyrwyddwyr' neu ddarparu cefnogaeth i bawb yn gyffredinol? - darparu hyfforddiant fel rhan o gofrestru i fenthyg beiciau cronfa neu ar gyfer unrhyw un sy'n dymuno mynd ar feic? **Cysylltiadau** Mae'r cysylltiadau isod yn darparu hyfforddiant cynnal a chadw beiciau a diogelwch beiciau ledled Cymru. Bydd y Clwb Teithio Beicwyr (CTC) yn darparu enwau cyswllt unigolion yn eich ardal sy'n darparu'r un hyfforddiant. **Hyfforddiant Beicio Cymru: Nick Canham** nick@cycletrainingwales.org.uk 07971719626 www.cycletrainingwales.org.uk **Profiad Beicio: Andrew Dade** Andrew@cycleexperience.com 07740 467 322 www.cycleexperience.com **Clwb Teithio Beicwyr: Gwenda Owen** Gwenda.owen@ctc.org.uk 07825081097 www.ctc.org.uk/DesktopDefault.aspx?TabID=4749	Yn dibynnu ar ofynion y safle, nifer yr hyfforddwyr a hyd y sesiwn (diwrnod llawn neu hanner diwrnod) Tua £150- £390 y dydd (Cysylltwch â'r darparwyr am asesiad mwy cywir o'ch gofynion a'ch costau)
Hyfforddiant diogelwch beiciau	Gweler y dolenni uchod ar gyfer cysylltiadau. Maent yn cynnwys: **Gwneud penderfyniadau: Math o hyfforddiant** - Cyrsiau dechreuwyr neu ail-afael? - I faint o bobl? - Anelu at gael tystysgrifau neu dim ond i gynyddu hyder y rhai sy'n mynychu? - hyfforddiant 1 i 1, gwaith gr p neu sesiynau hyfforddi'r hyfforddwr?	Gweler uchod.

Brecwastau Beic	**Gwneud penderfyniadau: Beth yw'r drefn?** - Pryd gaiff brecwastau eu darparu? Yn ystod Wythnos Beiciau? - Faint o bobl y dydd?	Tua £2.50 y dydd i bob person
Mapiau teithio egnïol	**Cysylltiadau** **Cycle City Guides** (defnyddiwyd yn flaenorol gan Sustrans) www.cyclecityguides.co.uk - dim ond un o'r llawer o sefydliadau sy'n cynnig y gwasanaeth. Gellir datblygu mapiau sy'n dangos safle'r ysbyty fel y canol, gyda'r llwybrau teithio egnïol, cyfleusterau, gwasanaethau ac arosfannau/gorsafoedd/canolbwynt trafnidiaeth gyhoeddus.	Tua £2000 am 2000 o fapiau (yn cynnwys dylunio, cartograffeg ac argraffu)
Arwyddo llwybrau cerdded a beicio ar y safle	**Cysylltiadau** Gellir cael sticeri llwybr cerdded a beicio a chyngor ar gyfer arwyddion ar y safle drwy gysylltu â Sustrans Cymru: claire.plowright@sustrans.org.uk Ar gyfer arwyddion plastig/metel oddi ar y safle cysylltwch â'ch Awdurdod Lleol. Mae'r rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol yn ymwybodol o sticeri Sustrans ar gyfer marcio llwybrau ac nid oes angen cysylltu cyn eu defnyddio. **Gwneud penderfyniadau: Nifer yr arwyddion** Bydd nifer yr arwyddion sydd eu hangen yn dibynnu ar: - gymhlethdod y safle - nifer y mynedfeydd/allanfeydd - llwybrau beicio sy'n amgylchynu'r safle - agosrwydd canolbwyntiau trafnidiaeth i'r safle - argaeledd gofod	Sticeri (yn dangos y cyrchfan diwedd y daith a'r amser ar gyfer cerddwyr a beicwyr) - 40c yr un Arwyddion parhaol (plastig/metel) £120- £240 (arwydd + postyn) gyda chostau ychwanegol am lafur a dylunio.
Storio beiciau	**Gwneud penderfyniadau: Pa fath o stand?** Mae'r dogfennau isod yn darparu gwybodaeth gefndir ar ba fath o stand sy'n addas ar gyfer eich safle. Lle bo'n bosibl, mae'n well hefyd i ddarparu cysgod dros yr ardal storio beiciau. **Pecyn Cymorth Teithio Byw yn y Gweithle Sustrans** www.activetravelcymru/toolkit **Dalen wybodaeth parcio beiciau:**	Stand sylfaenol i ddau feic ~£100 (yn cynnwys cyflenwi a gosod). Mae locer cloi beiciau o safon yn costio ~£500 i bob beic,

	www.sustrans.org.uk/webfiles/Info%20sheets/cycle%20parking%20info%20sheet.pdf **Canllaw parcio beiciau yn y gweithle:** www.tfl.gov.uk/assets/downloads/businessandpartners/Workplace-Cycle-Parking-Guide.pdf	wedi'i osod, Mae cysgod ar gyfer 20 beic yn costio rhwng £1,000 a £5,000 ac i fyny.
Beiciau Cronfa	**Gwneud Penderfyniadau: Pa fath o feiciau?** (gweler y dogfennau a restrir o dan storio beiciau am ragor o wybodaeth) Mae'r math o feic y byddwch yn ei brynu yn dibynnu ar: - amlder defnydd, - math o ddefnydd h.y. ei ddefnyddio i'w roi ar fenthyg i staff i annog defnydd o'r cynllun beicio i'r gwaith, neu'n bennaf ar gyfer defnydd busnes (safle i safle), - lefel o drafnidiaeth integredig a fwriedir e.e. mae beiciau plyg yn hwylus ar gyfer teithiau trên - blaenoriaeth i hamdden neu fusnes e.e. teithiau awr ginio i ganol y dref/siopau cyfagos Gall y penderfyniad yngl n â pha feiciau hefyd gael ei ddylanwadu gan y nifer y byddech yn ddelfrydol am eu cael. Hefyd ystyriwch sut y caiff y beiciau eu cynnal a'u cadw. A fydd hyn yn gyswllt allweddol ar y safle neu'n gefnogaeth allanol?	Beiciau Hybrid: rhwng £250 a £300 Beiciau plyg: rhwng £350 a £450 Beiciau mynydd: dylech fod yn edrych i wario o leiaf £300 Yn ogystal ag yswiriant, storio a chynnal a chadw
Ategolion	Bydd darparu ategolion gyda'r beiciau cronfa yn sicrhau bod y defnydd ar gael i bawb.	Helmed: £35 Golau blaen ac ôl: £30 Clo da (yn ddelfrydol yn glo 'D'', gyda chebl dewisol i'w roi drwy olwynion datgloi'n sydyn): £40 Fest gweledd uchel neu adlewyrchwyr: £10 yr un/ y pâr
Loceri	Mae'r gost a nodwyd yn ymddangos i fod yn isel iawn ar y pen rhataf (mae'r data o 2002), ond mae'n rhoi syniad bras o'r pris yn seiliedig ar astudiaethau achos. **Cyhoeddiad Yr Adran Drafnidiaeth (DfT): Making Travel Plans Work:** www.dft.gov.uk/pgr/sustainable/travelplans/work/ngtravelplansworklessons5783.pdf <http://www.dft.gov.uk/pgr/sustainable/travelplans/work/ngtravelplansworklessons5783.pdf>	Mae'r cyhoeddiad DfT 2002 'Making Travel Plans Work' yn dyfynnu: 10 locer ~£300- £1000

Cyfleusterau cawod a newid dillad	Eto, mae'r ffigur a ddarperir yn ymddangos yn eithaf isel, ond yn amlwg mae hyn yn dibynnu llawer iawn ar y cyfleusterau sydd ar gael yn barod a'r posibilrwydd o ail-ddatblygu adeiladau presennol. Byddai'n fanteisiol i siarad gyda'ch adran Ystadau a/neu Gyfleusterau ar y safle i gael rhagor o fanylder am y maes hwn. Os nad yw ariannu ar gael yn hwylus ar gyfer cyfleusterau cawod, nid yw hynny'n golygu diwedd ar deithio egnïol ar gyfer y safle. Mae'r ddolen isod yn esbonio: www.everydaycycling.com/edc/news/WiseWords/wise_words_sweat_free_commuting.aspx Neu nodwch y cyfleusterau cawod a newid dillad ar y safle a gwnewch yn si r fod y staff yn ymwybodol ohonynt. Yn wir gall fod cyfleusterau digonol ar y safle yn barod.	Mae'r cyhoeddiad DfT 2002 'Making Travel Plans Work' yn dyfynnu: Dwy set o gyfleusterau cawod a newid dillad. ~ £3,000 - £8,000
Lonydd beicio (ar y safle)	**Gwneud penderfyniad: Pa ddyluniadau sy'n gweithio orau?** **The London cycling design standards: A guide to the design of a better cycling environment (TfL, 2005)**, yn enwedig Pennod 7. Mae tudalen 133 yn rhoi costau deunydd arwyneb a thudalen 144-5 yn rhoi manylion costau adeiladu e.e. cyfleusterau goleuo a beiciau. www.tfl.gov.uk/assets/downloads/businessandpartners/lcds_chapter7.pdf **Canllawiau Technegol** Mae gwefan Sustrans hefyd yn rhoi amrywiaeth eang o ganllawiau technegol sy'n disgrifio ac yn esbonio gofynion adeiladu lonydd beicio newydd ac ailddatblygu isadeiledd presennol. Gall y dogfennau hyn eich helpu i benderfynu yn fras pa fath o fesurau y gallech eu rhoi ar waith ar eich safle: www.sustrans.org.uk/default.asp?sID=1149001882109 Defnyddir y ddwy ffynhonnell wybodaeth hyn gan ddatblygwyr ar gyfer prosiectau isadeiledd Sustrans ledled Cymru.	I baentio ar lonydd beicio i wella'r gwahanu presennol ar draffig, tua £850 am lafur am 1 diwrnod. Gall costau ychwanegol gynnwys deunyddiau, dyluniad a maint y safle. DS: gall y math o baent a'r dyluniad amrywio yn dibynnu ar yr arwyneb ffordd a'r gofod sydd ar gael.
Mesurau/ isadeiledd tawelu traffig	**Gwneud penderfyniadau: Beth i'w osod** Mae hyn yn cwmpasu amrywiaeth eang o ymyriadau lle gall mesurau amrywio'n fawr o ran cost h.y. plismyn cwsg ar y ffordd, bolardiau, chicanes, goleuadau traffig, gwelliannau palmant, ac ati. Dylai Adran Priffyrdd eich Awdurdod Lleol fod yn gallu darparu amcangyfrif cost am ystod o fesurau o'r fath.	Dim ar gael